

Ydych chi'n chwilio am swydd newydd?

ANFONWCH
CV

Athro

GWNEWCH
GAIS NAWR

Trin Gwallt

GWNEWCH
GAIS NAWR

Plwmwr

Beth allai
fynd o'i le?



www.getsafeonline.org

Mae'r mwyafrif helaeth o swyddi'n cael eu hysbysebu a'u canfod ar-lein y dyddiau hyn.

Mae'r broses gyfan yn gyflym ac yn hawdd:

- **chwilio** o blith dewis enfawr am yr union swydd rydych chi'n chwilio amdani
- **diweddar** eich CV
- **cyflwyno** eich cais
- **chyfathrebu** â darpar gyflogwyr neu asiantaethau recriwtio.

Efallai y byddwch hyd yn oed yn dod o hyd i'r swydd rydych chi ei heisiau ar un o'ch hoff safleoedd cyfryngau cymdeithasol.

Mae sgamiau cyflogaeth, fodd bynnag, yn gyffredin yn y DU a ledled y byd ... gan ddod ar ffurf sawl rhith gwahanol. Os cewch eich twylllo gan un, gallech ddod yn ddiodefwr twyll hunaniaeth neu ariannol, neu hyd yn oed fod yn rhan o weithgaredd troseddol heb yn wybod i chi.

Hoffem eich helpu i wneud yn siŵr nad yw hyn yn digwydd, gydag ambell gyngor arbenigol.

I gael cyngor cynhwysfawr, ymarferol a diduedd ynglŷn â chwilio am swyddi yn ddiogel ar-lein, ewch i

#safejob [getsafeonline.org/safejob](https://www.getsafeonline.org/safejob)



Eich cyngorion gorau ar gyfer chwilio am swydd yn ddiogel

- Gwnewch eich gwaith ymchwil er mwyn sicrhau fod gan safleoedd swyddi, asiantaethau cyflogaeth a darpar gyflogwyr enw da gyda chyfeiriad go iawn a llinell dir.
- Wrth restru eich proffil, dewiswch yr opsiwn o'i gadw'n gyhoeddus, yn gyfrinachol neu'n breifat yn ôl eich anghenion.
- Peidiwch byth â rhannu gwybodaeth megis rhifau Yswiriant Gwladol, pasbort neu drwydded yrru, gwybodaeth cyfrif banc/ cerdyn talu neu ddyddiad geni, naill ai wedi'u teipio ar eich CV neu eich cais, neu mewn lluniau/sganiau. Gallai hyn arwain at ladrata hunaniaeth. Dylech ond darparu'r rhain ar ôl i chi gwrdd â'r cyflogwr, cael y swydd a'ch bod yn hapus fod popeth yn ddilys.
- Lluniwch a defnyddiwch gyfrineiriau cryf, cadwch nhw'n ddiogel a pheidwch â'u defnyddio ar fwy nag un gwefan, o unrhyw fath.
- Os byddwch yn cael e-bost yn honni ei fod yn dod o ddarpar gyflogwyr sydd wedi gweld eich CV ar safle swyddi, cymerwch ofal wrth glicio ar ddolenni a sicrhewch eu bod yn mynd at swydd wag ddilys.
- Peidiwch â galw hysbysebwyrr ar gyfer cyfweiliad dros y ffôn, gallai fod yn rhif cyfradd premiwm drud. Yn hytrach, gwnewch yn siŵr fod darpar gyflogwyr yn eich ffonio chi.
- Byddwch yn ofalus wrth ymdrin â swyddi sy'n cynnig incwm heb orfod gwneud fawr ddim gwaith neu'n ymddangos fel incwm rhy uchel i fod yn ddilys, swydd nad yw'n gofyn am

unrhyw brofiad neu'n rhoi pwysau arnoch i wneud cais yn syth. Gallai'r rhain eich cynnwys mewn gweithgaredd gwyngalchu arian neu gludo cyffuriau. Mae'r rhain weithiau – ond nid bob tro – yn gynlluniau gweithio gartref.

- Cofiwch y gellir dod o hyd i nifer o hysbysebion swyddi twyllodrus ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol.
- Byddwch yn wylidwros o geisiadau am daliadau ymlaen llaw ar gyfer gwasanaethau CV, Datgelu a Gwahardd neu wiriadau diogelwch eraill neu luniau proffil.
- Peidiwch â chynnal y broses gyfan ar-lein: bydd y rhan fwyaf o gyflogwyr dilys yn gofyn am gyfweiliad wyneb-yn-wyneb ac yn hynny o beth, gallwch chithau weld pa fath o bobl ydyn nhw hefyd.
- Gwnewch yn siŵr fod y darpar gyflogwyr yn ddilys cyn cwrrd am gyfweiliad, er mwyn sicrhau nad yw eich diogelwch personol mewn perygl.

Os ydych chi wedi bod yn ddiodefwr sgam recriwtio, rhowch wybod amdano i **SAFERjobs** yn www.safer-jobs.com




Os ydych chi wedi cael eich twylllo o ganlyniad i wneud cais am swydd, rhowch wybod amdano i Action Fraud yn www.actionfraud.police.uk neu ar **0300 123 20 40**.

Get Safe Online

Get Safe Online yw'r ffynhonnell fwyaf blaenllaw o wybodaeth a chyngor ar ddiogelwch ar-lein yn y DU, i'r cyhoedd a busnesau bach. Mae'n bartneriaeth nid er elw rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat sydd wedi'i chefnogi gan nifer o adrannau'r llywodraeth, asiantaethau gorfodi'r gyfraith a sefydliadau blaenllaw ym maes diogelwch y rhyngwrwyd, bancio a manwerthu.

I gael rhagor o wybodaeth a chyngor diduedd arbenigol sy'n hawdd ei ddilyn ar ddiogelu eich hun, eich teulu, eich arian, eich dyfeisiau a'ch gweithlu, ewch i www.getsafeonline.org



www.getsafeonline.org

OFFICIAL PARTNERS

